

Atodiad 10: Yr Eglwys mwy diogel - Rhestr Wirio Diogelu¹

Diogelu

1. A yw pawb yn gwybod am bolisi a gweithdrefnau diogeluⁱ eich eglwys a lle i gael hyd iddo?
2. Ydych chi o'r farn fod eich eglwys yn deall beth yw diogelu?ⁱⁱ

Atal

3. Oes gennych chi gyd-lynydd Diogelu?ⁱⁱⁱ
4. A yw eich Ymddiriedolwyr a'ch Arweinwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu?^{iv}
5. Ydych chi'n dilyn y canllawiau recriwtio mwy diogel – gan gynnwys gwiriadau DBS - wrth ganfod a chyflogi gwirfoddolwyr a staff?^v
6. Ydych chi'n hyderus bod arweinwyr, staff a gwirfoddolwyr eich eglwys yn gwybod am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau diogelu? Ydyn nhw wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ac, os yn berthnasol, hyfforddiant gloywi/atgoffa?^{vi}
7. Ydyn nhw'n gwybod bod diogelu'n golygu gweithredu mewn modd ataliol a rhagweithiol? Ydych chi wedi ystyried pwy o gynulleidfa eich eglwys allai fod mewn perygl ac wedi cymryd camau priodol i'w diogelu?

Adnabod, adrodd a chofnodi

8. Ydych chi'n hyderus y byddai eich gwirfoddolwyr a staff yn adnabod ac yn ymateb yn briodol i amheuron, i gyhuddiadau, ac i ddatgeliadau o gamdriniaeth ac esgeulustod? Ydyn nhw'n cydnabod bod camdriniaeth yn rywbeth "allai ddigwydd yma"?
9. Ydych chi'n hyderus y byddai eich gwirfoddolwyr a staff hefyd yn adrodd ar arfer gwael yn ogystal â chamdriniaeth?
10. Lle cafodd pryderon eu hadnabod a'u hadrodd, allwch chi ddangos bod eich sefydliad wedi ymateb yn brydlon ac mewn modd priodol?
11. A yw pob mater neu bryder diogelu wedi ei adrodd i Swyddog Diogelu'r Panel?
12. A yw eich ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i adrodd ynghylch materion diogelu i'r Comisiwn Elusennau?^{iv}

Adolygu

13. Ydych chi'n adolygu eich trefniadau diogelu'n rheolaidd? (h.y. o leiaf yn flynyddol ac yn dilyn pob digwyddiad neu achos pryderus).
14. Ydych chi'n sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu yn sgîl digwyddiad neu achos pryderus?
15. Os oes asesiadau risg ynglŷn â diogelu neu gytundebau ymddygiad gennych chi mewn lle, - ydych chi'n adolygu'r rhain yn yn unol â'r cytundebneu neu'n flynyddol?

Gweithredu

16. Gwnewch restr o bopeth sydd ag angen ei wneud yn sgîl eich asesiad gan nodi dyddiadau ar gyfer adolygu'r cynnydd.
17. Os hoffech chi drafod canlyniadau eich asesiad neu ofyn am gyngor ar unrhyw fater yn ymwneud â diogelu, cysylltwch â Swyddog Diogelu'r Panel.

¹ Mae'r ddogfen hon wedi ei defnyddio â chaniatâd yr Ann Crafft Trust a'i seilio ar ei restr wirio ryngweithiol: <https://www.anncrafttrust.org/checklist-overview/>

ⁱ Y Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus <https://panel.cymru/cy/llawlyfr-diogelu-grwpiau>

ⁱⁱ Ydych chi wedi arddangos polisi eich eglwys ac ystyried cynnal gwasanaeth [Sul Diogelu?](#)

ⁱⁱⁱ Am fwy o fanylion gweler tudalen 3 o'r datganiad polisi diogelu yr eglwys unigol [Polisiau \(panel.cymru\)](#)

^{iv} Gweler atodiad 7 o ddiweddariad 2022 i'r [Llawlyfr](#)

^v Mae mwy o wybodaeth i'w chael yn Adran 2 o'r Llawlyfr neu o'n gwefan ar dudalen [Recriwtio mwy Diogel \(panel.cymru\)](#)

^{vi} Gweler [tudalen hyfforddiant](#) ein gwefan